# POLISI ENGHREIFFTIOL ADOLYGU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

Bu i Gorff Llywodraethol Ysgol XXX fabwysiadu y polisi adolygu datblygiad proffesiynol hwn ar XXX.

**Cynnwys**


1. Am y polisi hwn
2. Egwyddorion sydd yn sail i Adolygu Datblygiad Proffesiynol
3. Safonau Proffesiynol
4. Amseriad y Cylch Adolygu Datblygiad Proffesiynol
5. Penodi Partner Adolygu Datblygiad Proffesiynol
6. Y Cynllun Adolygu Datblygiad Proffesiynol
7. Myfyrio ar, a monitro cynnydd
8. Y Cyfarfod Adolygu Datblygiad Proffesiynol Blynyddol
9. Y Crynodeb Adolygu Datblygiad Proffesiynol
10. Argymhellion cynnydd cyflog
11. Apeliadau
12. Y defnydd o Grynodebau Adolygu Datblygiad Proffesiynol
13. Atal Tanberfformiad
14. Hyfforddiant a Chefnogaeth
15. Monitro a Gwerthuso

<u>Atodiadau</u>

A. Rhestr Wirio Asesiad Llwyth Gwaith
B. Templad: Cynllun Adolygu Datblygiad Proffesiynol
C. Protocol Arsylwi Gwersi
D. Templad: Adborth ar Arsylwi Gwersi
E. Cofnod Ymarfer, Adolygu a Datblygu
F. Templad: Y Crynodeb Adolygu Datblygiad Proffesiynol
G. Canllaw Arsylwi Gwersi Llywodraeth Cymru
H. Templad: Argymhelliad Cynnydd Tâl


## 1. AM Y POLISI HWN

Mae'r polisi hwn yn nodi'r trefniadau adolygu datblygiad proffesiynol ar gyfer y pennaeth ac athrawon yn [nodwch enw'r ysgol]. Mae wedi'i gytuno gan y corff llywodraethu, y pennaeth a'r awdurdod lleol ac mae'n dilyn ymgynghoriad gyda holl aelodau'r staff a'r undebau llafur cydnabyddedig. Mae'n disgrifio'r gwerthoedd, pwrpas, gweithdrefnau, rolau a chyfrifoldebau a fydd yn sicrhau bod trefniadau adolygu datblygiad proffesiynol yr ysgol yn bodloni y gwerthoedd craidd:

- **Cysylltiad**
  Datblygu perchnogaeth a chysylltiad ag adolygu datblygiad proffesiynol fel rhan annatod o ddysgu a gwelliant proffesiynol pob athro;

- **Galluogedd**
  Sicrhau amser a lle i athrawon ymgysylltu â, myfyrio ar, a mapio eu taith dysgu proffesiynol eu hunain i ddiwallu anghenion dysgwyr, o fewn diwylliant ac amgylchedd cefnogol;

- **Uchelgais**
  Athrawon yn gosod uchelgeisiau ar gyfer twf proffesiynol trwy gyfeirio at agweddau o'r Safonau Proffesiynol fel fframwaith ar gyfer gwelliant parhaus.

Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol a bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol yn destun ymgynghoriad pellach gydag aelodau staff. Adolygwyd y polisi ddiwethaf ar [nodwch ddyddiad yr adolygiad diwethaf].

Bydd y pennaeth yn darparu adroddiad ysgrifenedig blynyddol i'r Corff Llywodraethol ar weithrediad ac effeithiolrwydd y polisi hwn, gan gynnwys yr anghenion hyfforddi a datblygu sy'n deillio o'r broses adolygu datblygiad proffesiynol.

Mae'r polisi hwn wedi'i lunio gan roi sylw dyledus i'r rheoliadau arfarnu presennol a'r canllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Gellir dod o hyd i'r rhain yn:

Rheoliadau

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2940/contents/made

Canllaw

https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/adnabod-anghenion-dysgu-proffesiynol/adolygu-datblygiad-proffesiynol/#pwrpas-adolygu-datblygiad-proffesiynol

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i:

- athrawon newydd gymhwyso sy'n ymgymryd â'u cyfnod sefydlu statudol. Maent wedi'u heithrio o drefniadau adolygu datblygiad proffesiynol;
- athrawon a gyflogir am gyfnod penodol o lai nag un tymor ysgol neu lai na dau hanner tymor yn olynol.
- cynorthwywyr addysgu a chymorthyddion, a fydd yn dilyn polisi eu hunain

## 2. EGWYDDORION SYDD YN SAIL I ADOLYGU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

Mae adolygiad datblygiad proffesiynol yn arf gwella ysgol sy'n gwbl gynhwysol. Mae'n gosod fframwaith i athrawon ac arweinwyr ysgol gytuno ac adolygu blaenoriaethau ac amcanion yng nghyd-destun cynllun gwella'r ysgol. Mae adolygiad datblygiad proffesiynol yn rhoi cyfle i rannu ymrwymiad i gyflawni safonau uchel. Mae'n helpu i ganolbwyntio ar addysgu mwy effeithiol ac felly o fudd i ddisgyblion, athrawon ac yr ysgol. Mae'n golygu darparu hyfforddiant, arweiniad a chyfleoedd

datblygu priodol ac effeithiol i unigolion er mwyn sicrhau boddhad swydd, lefel uchel o arbenigedd a dilyniant gyrfa.

Bydd yr egwyddorion canlynol yn sail i'n trefniadau adolygu datblygiad proffesiynol.

- Bydd y penderfyniadau a wneir yn seiliedig ar dystiolaeth;
- Gellir llywio hunanwerthusiad ysgol o'r un prosesau casglu tystiolaeth a ddefnyddir ar gyfer adolygu datblygiad proffesiynol;
- Bydd yr adolygiad yn dathlu cryfderau, yn cydnabod cynnydd tuag at nodau, ac yn hyrwyddo datblygiad pellach;
- Bydd yr adolygiad yn rhan o ddiwylliant o gyd-ymddiriedaeth a pharch;
- Bydd yr adolygiad yn elfen annatod o ddysgu tîm a chydweithio;
- Bydd yr adolygiad yn gysylltiedig ag ymrwymiad i dwf proffesiynol gydol gyrfa gan ystyried dyheadau proffesiynol yr athro;
- Bydd yr adolygiad yn cefnogi taith ddysgu broffesiynol yr unigolyn ac yn cael ei arwain gan fyfyrdod unigol a chefnogaeth gan gymheiriaid o fewn yr ysgol neu o ysgol arall;
- I gyd-fynd â'r adolygiad bydd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel a deialog proffesiynol parhaus â ffocws iddo;
- Bydd yr adolygiad yn broses lle caiff pob Ymarferydd ei drin yn deg;
- Bydd yr adolygiad yn seiliedig ar ymrwymiad ar y cyd i ddiwallu anghenion dysgwyr;
- Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar bobl yn hytrach na ‘phapur’;
- Bydd yr adolygiad yn cadw cyfrinachedd rhwng y Partner Adolygu Datblygiad Proffesiynol a'r Ymarferydd mewn perthynas â'r agwedd gwneud penderfyniadau ffurfiol;
- Bydd yr adolygiad yn cefnogi lles dysgwyr ac Ymarferwyr.

Mae'r Corff Llywodraethol yn cydnabod hawl athrawon a'r pennaeth i gael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith fel y'i sefydlwyd yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (STPC(W)D). O ganlyniad, aseswyd effaith llwyth gwaith y polisi (gweler Atodiad A) a bydd yr ysgol yn trefnu'r holl weithgareddau adolygu datblygiad proffesiynol o fewn Amser a Gyfarwyddir ond nid o fewn amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA).

Mae'r Corff Llywodraethol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl broses adolygu datblygiad proffesiynol yn deg ac yn anwahaniaethol.

## 3. SAFONAU PROFFESIYNOL

Mae'n ofynnol i athrawon fodloni'r Safonau Athrawon Wrth eu Gwaith ar ddiwedd eu cyfnod sefydlu a rhaid iddynt barhau i'w bodloni drwy gydol eu gyrfa. Mae’n ofynnol i’r pennaeth fodloni’r Safonau Proffesiynol Ar Gyfer Addysgu Ac Arweinyddiaeth. Gall ymarferwyr eraill ddewis defnyddio’r Safonau Arweinyddiaeth fel cyfeiriad ar gyfer eu datblygiad arweinyddiaeth lle nodir hyn fel blaenoriaeth ar gyfer eu datblygiad proffesiynol.

Dylid ystyried y Safonau Proffesiynol yn eu cyfanrwydd i fod yn gefndir i drafodaeth ac i helpu ymarferwyr i nodi meysydd i’w datblygu ymhellach. Nid oes disgwyl i athrawon a phenaethiaid ddarparu tystiolaeth yn erbyn pob disgrifydd fel rhan o adolygiad datblygiad proffesiynol.

Mae'r Safonau Proffesiynol perthnasol i'w canfod yn:

https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/adnabod-anghenion-dysgu-proffesiynol/safonau-proffesiynol

https://hwb.gov.wales/api/storage/ae783486-0851-4ec6-9e73-2e2b99515cf5/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf

## 4. AMSERIAD Y CYLCH ADOLYGU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

Bydd cylch adolygu datblygiad proffesiynol blynyddol yr ysgol yn dechrau ar [nodwch y dyddiad] ac yn cael ei gwblhau erbyn [nodwch y dyddiad]. Mae'r cylch wedi'i amseru i blethu â chylch cynllunio blynyddol yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn darparu digon o amser, lle ac adnoddau wedi'u diogelu o fewn Amser a Gyfarwyddir i athrawon ymgymryd â phob agwedd ar eu hadolygiad datblygiad proffesiynol, gan gynnwys:

- Ystyried a chynllunio eu datblygiad proffesiynol;
- Cwrdd â'u Partner Datblygiad Proffesiynol i drafod a chynllunio;
- Cydweithio â chydweithwyr eraill; a
- Mynychu a chael mynediad at gyfleoedd datblygiad proffesiynol.

## 5. PENODI PARTNER ADOLYGU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

Bydd y pennaeth yn penodi Partner Adolygu Datblygiad Proffesiynol (y Partner) ar gyfer pob athro (yr Ymarferydd) yn yr ysgol. Y Partner fel arfer fyddai rheolwr llinell yr Ymarferwr. Bydd y Partner yn cynnal pob agwedd ar yr adolygiad, gan gynnwys argymhellion cyflog ar gyfer athrawon cymwys. Rhaid i'r Partner feddu ar Statws Athro Cymwys.

Ni fydd athrawon yn cael eu penodi'n Bartneriaid Adolygu Datblygiad Proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr dysgu oni bai bod ganddynt gyfrifoldebau rheolwr llinell uniongyrchol ar eu cyfer (er enghraifft Cydlynwyr ADY).

Mae gan athrawon, gan gynnwys y pennaeth, yr hawl i wrthwynebu'r Partner penodedig ar sail cysondeb a thegwch.

Bydd adolygiad datblygiad proffesiynol y pennaeth yn cael ei gynnal gan banel sy'n cynnwys:

- o leiaf dau lywodraethwr a benodir gan y corff llywodraethu – a rhaid i un ohonynt fod yn llywodraethwr sefydledig os yw'r ysgol yn ysgol ffydd neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir;
- un neu ddau gynrychiolydd a benodir gan yr awdurdod lleol. Gall yr Awdurdod Esgobaethol ddewis penodi cynrychiolydd i'r panel adolygu pennaeth os oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol.

Gall y corff llywodraethu geisio newid aelodau'r panel ar unrhyw adeg. Yn achos cynrychiolwyr a benodwyd gan yr awdurdod lleol, eu disgresiwn hwy yw hyn. Os bydd yr awdurdod lleol yn gwrthod penodi aelod arall o'r panel, rhaid rhoi eu rhesymau'n ysgrifenedig.

Ni chaiff unrhyw lywodraethwr sy'n athro neu sydd ag unrhyw rôl arall yn yr ysgol fod yn aelod o banel adolygu'r pennaeth.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod llywodraethwyr yn cael yr hyfforddiant a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

## 6. Y CYNLLUN ADOLYGU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

Bydd yr Adolygiad Datblygiad Proffesiynol yn gylch parhaus trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys tri cham - cynllunio, monitro ac adolygu datblygiad proffesiynol.

Bydd y Partner yn cyfarfod â'r Ymarferydd ar ddechrau'r cylch i gynllunio a pharatoi ar gyfer yr adolygiad blynyddol. Yn yr un modd, bydd y Panel yn cyfarfod â'r pennaeth ar ddechrau'r cylch i gynllunio a pharatoi ar gyfer yr adolygiad blynyddol. Gellir cyfuno'r cyfarfod hwn â'r cyfarfod adolygu i'r cylch blaenorol.

Ni ddylai'r cyfarfod ddigwydd yn ystod egwyliau, amser CPA, amser cinio neu'r tu allan i'r diwrnod ysgol sydd wedi'i amserlennu (oni bai y rhoddir cyfrif am hyn yn y calendr cyhoeddedig a'i fod o fewn yr Amser a Gyfarwyddir), a bydd y cyfarfod yn ceisio cytuno ar y canlynol:

- Y blaenoriaethau datblygu ar gyfer y cylch;
- Y gweithgareddau datblygiad proffesiynol sydd eu hangen i gefnogi cyflawniad y blaenoriaethau;
- Y math o weithgareddau myfyrio a monitro a fydd yn cyfrannu at gyflawniad y blaenoriaethau.

Ni fydd pob athro, gan gynnwys y pennaeth, yn cael mwy na thair blaenoriaeth ddatblygu y cytunir arnynt mewn cylch blynyddol.

Bydd y tair blaenoriaeth datblygu yn ymwneud ag amcan ysgol gyfan cytunedig, amcan adrannol yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu Ysgol, ac amcan sy'n adlewyrchu dyheadau datblygiad proffesiynol yr athro;

Bydd y blaenoriaethau datblygu yn heriol, yn realistig, yn gyraeddadwy, â therfyn amser, yn deg ac yn gyfartal mewn perthynas ag athrawon sydd â rolau, cyfrifoldebau a phrofiadau cyffelyb.

Ni fydd y blaenoriaethau datblygu yn dargedau meintiol i basio neu fethu.

Bydd y blaenoriaethau datblygu yn ystyried yr hyn y gellir yn rhesymol ei ddisgwyl gan unrhyw athro neu bennaeth o ystyried angen yr Ymarferydd i gael cydbwysedd boddhaol rhwng bywyd a gwaith.

Gall y Partner adolygu blaenoriaethau datblygu mewn amgylchiadau eithriadol a rhaid cofnodi'r rhesymau. Yn ogystal, gall yr Ymarferydd gofnodi gwrthwynebiadau a sylwadau.

Bydd y blaenoriaethau datblygu yn cael eu trafod a'u cytuno o fewn diwylliant o gydweithio, ymddiriedaeth a thryloywder.

Gall Ymarferwyr rannu eu cynllun datblygiad proffesiynol cyfan neu ran ohono gyda chydweithwyr lle mae blaenoriaeth unigol yn cysylltu â blaenoriaeth tîm neu ysgol. Bydd hyn yn caniatau rhannu dysgu proffesiynol a rhannu tystiolaeth, gydag ymagwedd colegol at ddatblygiad.

Bydd y Partner yn ystyried effeithiau amgylchiadau'r Ymarferwr, gan gynnwys unrhyw anabledd, wrth gytuno ar flaenoriaethau datblygu. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys addasiad rhesymol i ganiatáu ychydig yn hirach i unigolyn gwblhau tasg nag a fyddai fel arall. Bydd y Partner a'r Ymarferydd yn cadw cofnod o'r cyfarfod cynllunio (gweler Atodiad B).

Rhaid i'r Ymarferydd a'r Partner gytuno ar sut y caiff cynnydd ei adlewyrchu a'i fonitro ar ddechrau'r flwyddyn.

Ni fydd unrhyw ofyniad i drefnu cyfarfodydd adolygu ffurfiol yn ystod y cylch; fodd bynnag, dylai'r cynllun datblygiad proffesiynol fod yn ddogfen 'fyw' y dylai ymarferwyr ei defnyddio drwy gydol y flwyddyn i:

- fyfyrio ar eu cynnydd tuag at gyflawni eu blaenoriaethau datblygu;
- gadw cofnod o unrhyw ddysgu proffesiynol a wneir gan ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol;
- gadw cofnod o unrhyw ffactorau eraill a allai effeithio ar eu blaenoriaethau datblygu.

## 7. MYFYRIO AR, A MONITRO CYNNYDD

Y gweithgareddau monitro a myfyrio fydd:

- Mae gofyniad statudol i'r Partner arsylwi'r Ymarferydd o leiaf unwaith yn ystod y cylch adolygu;
- Bydd y math o weithgarwch myfyrio a monitro sy'n digwydd yn amrywio yn ôl natur y blaenoriaethau datblygu ac efallai y bydd angen arsylwi gwersi cefnogol, ond gellir ei gyflawni hefyd trwy sesiynau galw heibio, teithiau dysgu neu graffu ar lyfrau yn unig;
- Ni fydd mwy na thri digwyddiad myfyrio a monitro yn y cylch, gydag unrhyw weithgarwch arsylwi yn para dim mwy nag awr;
- Yn dilyn myfyrio a thrafod yn ystod y cylch, gall yr Ymarferydd a'r Partner gytuno i ailymweld â nifer y gweithgareddau arsylwi er mwyn cefnogi cyflawni unrhyw flaenoriaethau datblygu. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu cofnodi'n ffurfiol yn y ddogfennaeth arfarnu a'u llofnodi gan yr Ymarferwr a'r Partner;
- Bydd protocol arsylwi gwersi cytûn yn cefnogi arsylwadau gwersi (gweler Atodiad C);
- Bydd arsylwi dosbarth yn cael ei wneud gan unigolion â Statws Athro Cymwys (SAC);
- Bydd yr Ymarferydd yn cael cofnod o'r arsylwi gwers (gweler Atodiad D);
- Fel arfer bydd y Partner yn arsylwi gwersi, a bydd yn rhaid iddynt arsylwi'r Ymarferydd o leiaf unwaith. Fodd bynnag, efallai y cytunir yn y cyfarfod cynllunio y bydd rhywfaint o'r arsylwi'n cael ei wneud gan berson heblaw'r Partner, sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau i gyflawni'r rôl yn effeithiol;
- Os yw'r arsylwi yn cael ei wneud gan berson heblaw'r Partner, rhaid rhoi cofnod o'r arsylwi gwers i'r Partner a'r Ymarferydd;
- Mae adborth adeiladol yn allweddol i fyfyrio ar gynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau datblygu. Dylai sesiynau adborth fod yn:

  - Benodol;
  - Adeiladol;
  - Heriol ond parchus;
  - Ran o ddeialog;
  - Canolbwyntio ar ymddygiadau, nid nodweddion;
  - Myfyrio ar lwyddiannau yn ogystal â meysydd i'w gwella;
  - Ran o drafodaeth am y camau nesaf;
- Bydd y dewis o weithgaredd dysgu a ddefnyddir yn cael ei gydbwyso i adlewyrchu'r ystod o waith a wneir gan yr Ymarferwr;
- Lle mae'r Ymarferydd yn dychwelyd ar ôl cyfnod o absenoldeb estynedig, gellir addasu blaenoriaethau datblygu i'w galluogi i ailaddasu i'w hamgylchedd gwaith;
- Yn dilyn y cyfarfod cynllunio, ni ellir cael unrhyw wybodaeth gan berson arall, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, heb ganiatâd yr Ymarferydd.

Yn achos cynllun datblygu’r pennaeth yn unig, bydd cadeirydd y corff llywodraethu yn darparu, ar gais, gopi o amcanion y pennaeth i Estyn.

## 8. Y CYFARFOD ADOLYGU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL BLYNYDDOL

Ar ddiwedd y cylch adolygu datblygiad proffesiynol cynhelir cyfarfod adolygu ffurfiol lle bydd y Partner a'r Ymarferydd yn trafod cyflawniadau, unrhyw feysydd i'w gwella, a gweithgareddau datblygiad proffesiynol. Ar y ddealltwriaeth bod y cyfarfod cynllunio yn broses ar wahân, gellir cyfuno’r cyfarfod hwn â’r cyfarfod cynllunio ar gyfer y cylch blynyddol nesaf, a rhaid rhoi 10 diwrnod ysgol o rybudd. Rhaid i'r Ymarferwr rannu y myfyrdodau gyda'i Bartner Adolygu Datblygiad Proffesiynol o leiaf 5 diwrnod ysgol cyn y cyfarfod adolygu datblygiad proffesiynol blynyddol.

Pwrpas y cyfarfod yw crynhoi gweithgaredd dros y flwyddyn ddiwethaf drwy fyfyrio ar:

- Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau datblygu (ar lefel unigol ac ysgol);
- Safonau Proffesiynol perthnasol;
- Manteision a chymhwysiad dysgu proffesiynol;
- Yr effaith ar ddysgwyr;
- Unrhyw ffactorau a allai fod wedi effeithio ar yr uchod.

Bydd cynnydd da tuag at gyflawni blaenoriaeth heriol yn cael ei asesu'n ffafriol.

Ni cheir dod o hyd i unrhyw wybodaeth gan berson arall, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, heb ganiatâd yr ymarferydd.

## 9. Y CRYNODEB ADOLYGU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

O fewn 10 diwrnod ysgol i'r cyfarfod adolygu datblygiad proffesiynol blynyddol, bydd y Partner Adolygu Datblygiad Proffesiynol yn cynhyrchu crynodeb byr o'r drafodaeth a'r casgliadau y daethpwyd iddynt. Anogir Partneriaid i rannu'r crynodeb gyda'r Ymarferwr o fewn y cyfnod 10 diwrnod.

Rhaid i'r Partner beidio â chael gwybodaeth gan unrhyw berson arall, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, sy'n berthnasol i berfformiad yr Ymarferydd heb ganiatâd yr Ymarferwr.

Gall yr Ymarferydd ychwanegu ei sylwadau ei hun at y crynodeb. Bydd y Partner yn ceisio cytuno ar eiriad terfynol y Crynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol gyda'r Ymarferwr. (gweler Atodiad F).

Mae'r Crynodeb yn ddogfen gyfrinachol a rhaid ei gadw mewn lle diogel. Bydd darpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data yn cael eu dilyn bob amser.

**10. ARGYMHELLION CYNNYDD CYFLOG**

Bydd y Crynodeb Adolygiad Datblygiad Perfformiad yn cael ei ddefnyddio i bennu cyflog ar gyfer rhai athrawon yn unig, sef: y rhai sy'n dymuno cael eu hystyried i symud ymlaen i'r Raddfa Gyflog Uwch, a'r rhai yr ystyrir eu bod wedi cyflawni perfformiad rhagorol ar hyd y Brif Raddfa Gyflog.

Y Grynodeb Adolygiad Datblygu Perfformiad ar ddiwedd y cylch yw'r unig ffynhonnell dystiolaeth sydd ei hangen ar athrawon i gefnogi datblygiad cyflog. Fodd bynnag, os bydd athrawon yn dymuno cyflwyno tystiolaeth ychwanegol gallant wneud hynny, ond ni ofynnir iddynt a ni chyfarwyddir iddynt i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol. Ni fyddent dan anfantais os ydynt yn dewis peidio â gwneud hynny, ychwaith.

**11. APELIADAU**

Gall yr Ymarferwr apelio yn erbyn y Crynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol o fewn deg diwrnod ysgol i dderbyn y Crynodeb. Bydd swyddog apêl neu, yn achos y pennaeth, panel apêl yn cael ei benodi i gynnal adolygiad. Os yw cadeirydd y corff llywodraethu ar y panel, bydd yr awdurdod lleol yn penodi cynrychiolydd arall. Bydd pob apêl yn cael ei chynnal yn unol â'r Rheoliadau Arfarnu presennol a'r canllawiau cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru.

I grynhoi, bydd y broses apelio yn cynnwys y camau canlynol:

- Ymarferydd yn cyflwyno apêl i'r corff llywodraethu;
- Penodi swyddog/panel apêl;
- Swyddog/panel apêl yn cael copi o Grynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol o fewn pum diwrnod ysgol i dderbyn hysbysiad o apêl;
- Bydd adolygiad apêl yn cael ei gynnal o fewn deg diwrnod ysgol o dderbyn Crynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol;
- Rhaid i'r swyddog/panel apeliadau ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan yr Ymarferwr;
- Yna gall y swyddog/panel apêl benderfynu:
    - Bod yr Adolygiad Datblygiad Proffesiynol wedi'i gynnal yn foddhaol;
    - Gyda chytundeb y Partner, diwygio'r Crynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol;

- Penderfynu cynnal cyfarfod adolygu datblygiad proffesiynol blynyddol newydd gyda Phartner Adolygu Datblygiad Proffesiynol newydd o fewn 15 diwrnod ysgol. Ni all y swyddog/panel apêl benderfynu:
    - Gellir gosod blaenoriaethau newydd;
    - Adolygu'r blaenoriaethau presennol.

**12. Y DEFNYDD O GRYNODEBAU ADOLYGU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL**

Mae’r holl broses adolygu datblygiad proffesiynol, y datganiad o flaenoriaethau datblygu a’r Crynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol yn ddogfennau personol a chyfrinachol a chânt eu cadw mewn man diogel.

<u>Athrawon</u>

Rhaid i’r Partner roi copi o’r Crynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol i’r ymarferydd ac i’r pennaeth. Yn ei dro, bydd y pennaeth, ar gais, yn darparu copi i:

- y Partner;
- swyddog apeliadau;
- unrhyw lywodraethwyr sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau neu roi cyngor ar faterion yn ymwneud â chyflog.

Lle bo’r Ymarferwr yn gymwys ar gyfer datblygiad cyflog o dan y STPC(W)D, bydd y Partner yn rhoi argymhelliad ar ddatblygiad cyflog i’r pennaeth yn unol â darpariaethau’r STPC(W)D (gweler Atodiad H).

Bydd y pennaeth yn darparu copi o’r rhannau perthnasol o’r Grynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol sy’n manylu ar anghenion datblygiad proffesiynol i’r person sydd â chyfrifoldeb ysgol gyfan am gynllunio darpariaeth ar gyfer hyfforddiant a datblygiad.

Bydd y Pennaeth yn cadw Crynodeb yr Adolygiad o Ddatblygiad Proffesiynol mewn lle diogel am o leiaf dair blynedd ar ôl i Grynodeb nesaf yr Adolygiad Datblygiad Proffesiynol gael ei gwblhau.

<u>Pennaeth</u>

Yn achos adolygiad datblygiad proffesiynol y pennaeth, bydd y Panel yn rhoi copïau o’r Crynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol i’r pennaeth, cadeirydd y corff llywodraethu a’r prif swyddog addysg. Bydd y Panel hefyd, ar gais, yn darparu copi i unrhyw lywodraethwyr sy’n gyfrifol am wneud penderfyniadau neu roi cyngor ar faterion yn ymwneud â chyflog.

Bydd cadeirydd y corff llywodraethu hefyd, ar gais, yn darparu copi o Grynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y pennaeth i:

- Unrhyw swyddog a ddynodwyd gan y prif swyddog addysg sy'n gyfrifol am berfformiad penaethiaid;
- Unrhyw swyddog apêl.

Bydd cadeirydd y corff llywodraethu yn darparu copi o’r rhannau perthnasol o’r Crynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol sy’n manylu ar anghenion datblygiad proffesiynol i’r sawl sydd â chyfrifoldeb ysgol gyfan am gynllunio darpariaeth ar gyfer hyfforddiant a datblygiad.

Cedwir y Crynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol gan y corff llywodraethu mewn man diogel am o leiaf dair blynedd ar ôl i Grynodeb nesaf yr Adolygiad Datblygiad Proffesiynol gael ei gwblhau. Bydd y pennaeth hefyd yn cadw copi o’r Crynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol am yr un cyfnod o amser.

Gall y corff llywodraethu (neu ei bwyllgorau) ystyried gwybodaeth o Grynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y pennaeth mewn materion sy'n ymwneud â dyrchafu, disgyblu neu ddiswyddo'r pennaeth neu mewn perthynas ag unrhyw ddisgresiwn ynghylch tâl.

## 13. ATAL TANBERFFORMIAD

Nid yw'r broses adolygu datblygiad proffesiynol yn rhan o unrhyw weithdrefnau disgyblu, medrusrwydd, gallu neu ddiswyddo. Bydd trefniadau rheoli llinell effeithiol, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu datblygiad proffesiynol a nodir uchod, yn helpu i atal tanberfformio yn y lle cyntaf drwy gefnogi’r unigolyn i fodloni’r blaenoriaethau datblygu a nodwyd.

Mae gweithdrefnau i fynd i'r afael â thanberfformiad yn destun polisi medrusrwydd ar wahân.

Gellir defnyddio gwybodaeth o Grynodeb Adolygiad Datblygiad Proffesiynol fel tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau am ddyrchafiad, diswyddo, neu faterion disgyblu o dan bolisïau eraill.

## 14. HYFFORDDIANT A CHEFNOGAETH

Bydd rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yr ysgol yn cael ei llywio gan yr anghenion hyfforddi a datblygu a nodwyd yn ystod cyfarfod cynllunio ac adolygu’r Ymarferwr.

Bydd y corff llywodraethu’n sicrhau, wrth gynllunio’r gyllideb, bod adnoddau priodol ar gael, cyn belled ag y bo modd, ar gyfer unrhyw hyfforddiant a chymorth y cytunir arnynt ar gyfer Ymarferwyr, gan gynnwys darpariaethau i’w rhyddhau o ddyletswyddau wedi’u hamserlennu er mwyn ymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol a chael mynediad iddynt.

Bydd adroddiad o anghenion hyfforddi a datblygu athrawon, gan gynnwys yr achosion lle na fu’n bosibl darparu unrhyw DdPP y cytunwyd arno, yn rhan o adroddiad blynyddol y pennaeth i’r corff llywodraethu am weithrediad y broses adolygu datblygiad proffesiynol o fewn yr ysgol.

Ni fydd ymarferwyr yn atebol am fethu â gwneud cynnydd da tuag at fodloni eu blaenoriaethau adolygu datblygiad proffesiynol lle na ddarparwyd y cymorth a gofnodwyd ar gyfer eu blaenoriaethau datblygu.

Bydd yr holl Bartneriaid yn cael hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni pob agwedd ar eu rôl yn briodol ac yn effeithiol.

**15. MONITRO A GWERTHUSO**

Bydd y corff llywodraethu a'r pennaeth yn monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd trefniadau adolygu datblygiad proffesiynol yr ysgol.

Bydd y pennaeth yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r corff llywodraethu ar weithrediad adolygiad datblygiad proffesiynol yr ysgol a pholisïau gallu yn flynyddol. Ni fydd yr adroddiad yn enwi unrhyw unigolyn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys asesiad o effaith y polisïau hyn ar: hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd a chredoau, oedran, statws rhan amser a mamolaeth a beichiogrwydd.

Bydd y pennaeth yn adrodd a fu unrhyw apeliadau neu gynrychioliadau ar sail unigol neu gyfunol ar sail gwahaniaethu honedig.

**ATODIAD A: RHESTR WIRIO ASESIAD LLWYTH GWAITH**

- [ ] Mae'r polisi hwn wedi'i asesu yn erbyn y system y cytunwyd arni i fonitro llwyth gwaith ac oriau gwaith athrawon a'r pennaeth.
- [ ] Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio ac yn gyson â hawliau cytundebol yr athrawon.
- [ ] Cyflwynwyd y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig yn dilyn ymgynghoriad llawn ag undebau llafur yr athrawon.
- [ ] Mae'r polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig yn cynnwys datganiad penodol ynghylch effaith llwyth gwaith.
- [ ] Ni fydd y polisi hwn nac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig yn ychwanegu oriau gwaith ychwanegol.
- [ ] Nid yw'r polisi hwn yn dyblygu unrhyw bolisi arall sy'n bodoli.
- [ ] Mae'r adnoddau angenrheidiol i gefnogi'r polisi hwn, gan gynnwys amser staff, unrhyw staff ychwanegol ac offer priodol, wedi'u nodi.
- [ ] Ni fydd gweithredu'r polisi hwn yn arwain at unrhyw gyfarfodydd / gweithgareddau ychwanegol nad ydynt wedi'u nodi yng nghalendr yr ysgol, wedi'u cyhoeddi a'u hadolygu mewn ymgynghoriad ag undebau llafur athrawon.
- [ ] Bydd yr holl staff (gan gynnwys y pennaeth) yn cael eu hyfforddi i sicrhau bod y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig yn cael eu gweithredu heb gynyddu beichiau llwyth gwaith.
- [ ] Bydd y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig yn cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau nad yw beichiau llwyth gwaith ychwanegol wedi'u hychwanegu dros amser.

## ATODIAD B: TEMPLAD - CYNLLUN ADOLYGU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

| | |
|---|---|
| Enw Ymarferydd: | |
| Enw Partner: | |
| Dyddiad y cyfarfod: | |

<u>Blaenoriaethau Datblygu</u>

| | |
|---|---|
| 1 | |
| 2 | |
| 3 | |

| | |
|---|---|
| Anghenion datblygu a hyfforddiant: | |
| Adnoddau i gefnogi'r Blaenoriaethau: | |
| Gweithdrefn(au) ar gyfer monitro cynnydd: | |
| Sylwadau'r Ymarferydd: | |

| | |
|---|---|
| Ymarferydd (llofnod): | |
| Partner (lofnod): | |
| Dyddiad: | |

## ATODIAD C: PROTOCOL ARSYLWI GWERSI

**Cyflwyniad**

Mae’r corff llywodraethu hwn wedi ymrwymo i sicrhau bod arsylwi gwersi yn arf datblygiadol a chefnogol, a bydd y rhai sy’n ymwneud â’r broses yn:

- cyflawni'r rôl gyda phroffesiynoldeb, uniondeb a chwrteisi;
- ceisio dod i gytundeb ymlaen llaw ar sut i arsylwi gwersi;
- gwerthuso'n wrthrychol;
- adrodd yn gywir ac yn deg; a
- Parchu cyfrinachedd y wybodaeth a geir.

**Cynllunio a pharatoi ar gyfer arsylwi gwersi**

Yn unol ag ymrwymiad corff llywodraethu’r ysgol i’r gwerthoedd craidd a’r egwyddorion a nodir uchod, bydd y pennaeth yn:

- Ymgynghori ag athrawon ar y patrwm arsylwi gwersi y gallant ei ddisgwyl yn flynyddol a cheisio cytundeb gydag athrawon a chynrychiolwyr undebau ar y trefniadau hyn;
- Sicrhau bod y patrymau arsylwi hyn yn cael eu gosod yng nghalendr yr ysgol;
- Sicrhau bod y rhai sy'n cael eu harsylwi at bob diben yn cael eu hysbysu o leiaf bum diwrnod gwaith ymlaen llaw;
- Trefnu, cyn belled ag y bo modd, i'r holl arsylwadau ddigwydd ar amser y cytunwyd arno rhwng yr Ymarferwr a'r Partner;
- Sicrhau bod cyfnod rhesymol o amser rhwng arsylwadau gwersi, beth bynnag fo diben yr arsylwadau hynny;
- Sicrhau mai unigolion â statws athro cymwysedig (SAC) yn unig a fydd yn arsylwi yn yr ystafell ddosbarth a'r hyfforddiant a'r sgiliau proffesiynol priodol i arsylwi ac i ddarparu adborth a chymorth llafar ac ysgrifenedig adeiladol, yng nghyd-destun deialog broffesiynol rhwng cydweithwyr.

Bydd cynllunio ar gyfer arsylwi yn digwydd ar ddechrau’r cylch adolygu datblygiad proffesiynol a bydd yn cynnwys manylion am:

- faint o arsylwi sydd ei angen i lywio'r blaenoriaethau datblygu;

- ffocws yr arsylwi;
- hyd yr arsylwi;
- pryd yn ystod y cylch adolygu datblygiad proffesiynol y cynhelir yr arsylwi; a
- Pwy fydd yn cynnal yr arsylwi (os cytunir na fydd y Partner yn arsylwi).

Er mwyn cadw arsylwi gwersi i’r lleiafswm, ac i gefnogi ymdrechion i gyflawni ymrwymiad yr ysgol i symleiddio casglu data a lleihau biwrocratiaeth a beichiau llwyth gwaith ar Ymarferwyr, bydd y wybodaeth a gesglir mewn arsylwad yn cael ei defnyddio at ddibenion lluosog, gan gynnwys strategaethau hunain arfarnu a gwerthuso a gwella ysgolion. Bydd hyn yn galluogi’r pennaeth, wrth gyflawni ei ddyletswydd, i werthuso safonau addysgu a dysgu, ac i sicrhau bod safonau priodol yr adolygiad datblygiad proffesiynol yn cael eu sefydlu a’u cynnal.

Cyn cynnal unrhyw arsylwi gwers, bydd cyfle i'r Partner a'r Ymarferydd gyfarfod o fewn amser a gyfarwyddir er mwyn gallu trafod cyd-destun y wers i'w harsylwi. Ni fydd y cyfarfod yn digwydd yn ystod amser egwyl, amser cinio na CPA, ac mae'r ysgol yn ceisio rhyddhau'r cyfranogwyr oddi ar yr amserlen er mwyn caniatáu amser rhesymol i gynnal busnes.

**Cynnal arsylwad**

Bydd cyfyngiad blynyddol o gyfanswm o dri arsylwad at bob diben a rhaid cytuno ar y ffocws a’r amseriad yng nghynllun adolygu datblygiad proffesiynol yr ymarferydd.

Ni fydd disgyblion na llywodraethwyr yn cynnal arsylwadau (er y gall llywodraethwyr, trwy gytundeb ymlaen llaw gyda’r athro dan sylw, ymweld â gwers i ymgyfarwyddo â’u maes cyswllt).

**Adborth a chofnodion**

Rhoddir adborth llafar cyn gynted â phosibl ar ôl arsylwi'r wers a dim hwyrach na diwedd y diwrnod gwaith canlynol. Bydd yn cael ei roi yn ystod amser a gyfarwyddir mewn amgylchedd preifat ac addas. Bydd amser ar gyfer paratoi ac adborth ar gyfer arsylwi gwersi at ddibenion adolygu datblygiad proffesiynol ar gael yn ogystal ag amser CPA.

Darperir adborth ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith i'r arsylwi. Os daeth materion i'r amlwg o arsylwi nad oeddent yn rhan o ffocws yr arsylwi fel y'i cofnodwyd yn y datganiad cynllunio ac adolygu, dylid ymdrin â'r rhain hefyd yn yr adborth ysgrifenedig a dylid trafod y camau priodol gyda'r Ymarferwr.

Bydd y cofnod ysgrifenedig o adborth yn cynnwys y dyddiad y digwyddodd yr arsylwi, y wers a arsylwyd a hyd yr arsylwi. Mae gan yr Ymarferwr hawl i atodi sylwadau ysgrifenedig at y ddogfen adborth. Ni chedwir nodiadau ysgrifenedig yn ychwanegol at yr adborth ysgrifenedig a sylwadau'r ymarferydd. Bydd y Partner yn cael digon o amser o fewn y diwrnod ysgol i roi ar ffurf ysgrifenedig y casgliadau y cytunwyd arnynt gyda'r Ymarferwr ar ddeilliannau'r arsylwi dosbarth.

Bydd athrawon yn cael gweld yr holl adroddiadau ysgrifenedig o'r arsylwi ar ôl eu gwersi ac, os ydynt yn gofyn, darperir copïau.

**Arsylwi gwersi a chamau medrusrwydd ffurfiol**

Ar gyfer athrawon ar weithdrefn medrusrwydd ffurfiol, rhan bwysig o'r cymorth a gynigir i'r athro fydd swm o arsylwi ystafell ddosbarth wedi'i ddiffinio'n glir gydag adborth llafar ac ysgrifenedig strwythuredig. Bydd maint yr arsylwi ystafell ddosbarth yn cael ei drafod gyda'r athro a'i gynrychiolydd undeb sy'n eu cefnogi a'u cynghori yn y broses ffurfiol.

**ATODIAD D: TEMPLAD - ADBORTH AR ARSYLWI GWERSI**

| | |
|---|---|
| Dyddiad adborth: | |
| Dyddiad arsylwi: | |
| Y dosbarth a arsyliwyd: | |

Cryfderau:

| |
|---|
| |

Maesydd i'w datblygu:

| |
|---|
| |

Sylwadau athro:

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| **Partner** (llofnod): | |
| **Ymarferydd** (llofnod): | |

## ATODIAD E: TEMPLED COFNOD YMARFER, ADOLYGU A DATBLYGU

| COFNOD YMARFER, ADOLYGU A DATBLYGU | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** | **Gweithgareddau datblygiad proffesiynol a chefnogaeth a ddarparwyd** | | **Cyfraniad gweithgareddau datblygiad proffesiynol a chefnogaeth i gwrdd â blaenoriaethau** | | | **Ffactorau sy'n effeithio ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau** | | **Asesiad o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau** | | |
| | Disgrifiad | Dyddiad | Da | Gweddol | Sâl | Disgrifiad | Dyddiad | Yn llawn | Rhannol | Heb gyfarch |
| I'w gwblhau yn y cyfarfod cynllunio | *I'w gwblhau yn y cyfarfod cynllunio* | *Ychwanegu wrth gadarnhau* | *Ticiwch fel y bo angen* | | | *I'w ychwanegu yn ystod y cylch, os oes angen* | | *Ticiwch fel y bo angen* | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |

**ATODIAD F: CRYNODEB ADOLYGIAD DATBLYGU PROFFESIYNOL**

| Dyddiad yr adolygiad: | |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Ymarferydd: | |
| Partner: | |

Rhestrwch y Blaenoriaethau Datblygu a nodwch a ydynt wedi'u datblygu neu a oes angen eu datblygu ymhellach:

Blaenoriaethau Datblygu:

| |
|---|
| 1 |
| 2 |
| 3 |

Cryfderau:

| |
|---|
| |

Maesydd i'w datblygu, os o gwbl:

| |
|---|
| |

Cefnogaeth ac adnoddau sydd eu hangen gan yr ysgol:

| |
|---|
| |

Sylwadau'r Ymarferydd:

| |
|---|
| |

Mae'r Datganiad hwn wedi'i gytuno gan:

| | |
|---|---|
| Ymarferydd (llofnod): | |
| Partner (llofnod): | |
| Dyddiad cwblhau crynodeb ADP: | |

## ATODIAD G: CANLLAW ARSYLWAD DOSBARTH LLYWODRAETH CYMRU

**Arsylwi yn yr Ystafell Ddosbarth - Pwrpas a Phrotocolau**

Gall arsylwi yn yr ystafell ddosbarth fod yn arf pwysig wrth godi safonau trwy gefnogi ymarferwyr i rannu a datblygu eu sgiliau a thrwy hynny wella canlyniadau i ddysgwyr. Er nad oes terfyn uchaf ar nifer yr achlysuron y gellir arsylwi, mae'n hanfodol bod y pwyslais ar ansawdd y profiad yn hytrach na'r nifer.

Er mwyn sicrhau bod arsylwi'n bwrpasol, yn gefnogol ac yn ddatblygiadol, dylai pawb sy'n ymwneud â threfnu, cynnal neu gymryd rhan mewn arsylwi gadw at y canllawiau canlynol sy'n nodi'r diben a'r protocolau sy'n nodweddu arfer effeithiol.

**Beth yw ystyr 'arsylwad dosbarth'?**

Mae 'arsylwi dosbarth' yn cyfeirio at bob achlysur pan fydd gweithgareddau dysgu a/neu addysgu yn cael eu harsylwi at ddiben penodol gan rywun heblaw'r athro dosbarth a'r staff cymorth sydd fel arfer yn gysylltiedig â'r dosbarth.

**Egwyddorion a phrotocolau**

Dylai arsylwi yn y dosbarth gadw at yr egwyddorion canlynol:

- Dylai fod gan bawb sy'n ymwneud â phob arsylwi ddealltwriaeth ar y cyd o'i ddiben penodol. Dylid ymdrin ag anghydfodau ynghylch gweithdrefnau arsylwi ac ati drwy brosesau datrys problemau sefydledig yr ysgol a/neu brosesau cydnabyddedig ar gyfer datrys problemau torfol lle bo'n berthnasol.
- Lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol, dylid ymdrechu i gyfuno arsylwadau at wahanol ddibenion er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o gyfleoedd ar gyfer arsylwi yn y dosbarth.
- Dylid meddwl yn ofalus wrth ddewis yr arsylwr fel ei fod yn adlewyrchu pwrpas yr arsylwi.
- Dylai arsylwi gefnogi a datblygu addysgu a dysgu - dylid tarfu cyn lleied â phosibl ar weithgarwch arferol y dosbarth.
- Dylid cynllunio trefniadau arsylwi ymlaen llaw fel bod y rhai sy'n gysylltiedig yn cael digon o rybudd.
- Dylai arsylwi fod yn wrthrychol, yn ddatblygiadol ac yn gefnogol ac wedi'i gynnal gyda phroffesiynoldeb, uniondeb a chwrteisi.

- Mae arsylwi llwyddiannus yn gofyn am baratoi ac ystyriaeth briodol.
- Fel rhan o drefniadau cyffredinol yr ysgol ar gyfer arsylwi ystafell ddosbarth, dylai'r rhai sy'n ymwneud â'r arsylwi geisio cytuno ymlaen llaw ar natur ac amseriad unrhyw adborth i'w ddarparu a gyda phwy y caiff ei rannu.
- Dylai trefniadau cynllunio ac adborth ystyried amser a gyfarwyddwyd a thelerau ac amodau cyflogaeth statudol.

Yn ogystal, ar gyfer arsylwi sy’n cynnwys barnau ar berfformiad ymarferwyr unigol, dylai’r egwyddorion canlynol fod yn berthnasol hefyd:

- Dim ond person â SAC all arsylwi addysgu at ddiben adolygiad datblygiad proffesiynol athrawon (gan gynnwys asesiad athrawon newydd gymhwyso a'r Rhaglen Athrawon Graddedig (GTP)) ac fel rhan o weithdrefnau medrusrwydd.
- Dylid pennu natur, pwrpas a swm yr arsylwi, yn ogystal â'r meysydd i ganolbwyntio arnynt, mewn cyfarfod cynllunio.
- Bydd angen i gwmpas yr addysgu a arsylwyd fod yn gytbwys i adlewyrchu ystod gwaith athro, ond ni ddylai fod yn ormodol yn ei gyfanrwydd.
- Mae'n bwysig bod cyfanswm yr amser arsylwi yn cael ei gyfyngu i ddim mwy na'r hyn sydd ei angen i ffurfio barn gadarn gyda thystiolaeth, gan fod sesiynau arsylwi aml yn aflonyddgar ac yn wrthgynhyrchiol.
- Mae angen ystyried yn ofalus yn y cyfarfod cynllunio amseriad a nifer y sesiynau arsylwi i'w cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd. Dylai'r ystyriaeth hon hefyd gynnwys gofynion y gwerthuswr i baratoi, cynnal ac adrodd yn ôl ar bob sesiwn yn ddigonol. Er mwyn lleihau biwrocratiaeth mewn ysgolion, mae rhai arfarnwyr, er enghraifft, yn ei chael yn ddefnyddiol cysylltu pob sesiwn â seibiannau naturiol yn y flwyddyn academaidd megis tymhorau.
- Dylid rhoi o leiaf pum diwrnod gwaith o rybudd o arsylwi at y dibenion hyn.
- Mae'n bwysig bod y sesiynau a arsylwyd yn mynd rhagddynt mewn awyrgylch mor normal â phosibl.
- Dylid darparu adborth llafar adeiladol bob amser cyn gynted â phosibl ar ôl yr arsylwi a'i gadarnhau'n ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith. Dylid rhoi cyfle i athrawon ychwanegu eu sylwadau ysgrifenedig eu hunain at yr adborth hwn.
- Dylai pawb sydd â mynediad at wybodaeth a gafwyd o'r broses barchu ei chyfrinachedd a sicrhau bod darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 yn cael eu dilyn bob amser.

**Dibenion arsylwi ystafell ddosbarth**

Gellir grwpio dibenion arsylwi o dan y meysydd canlynol - nid yw'r rhain o reidrwydd yn gynhwysfawr nac yn gyfyngedig:

1. Arsylwi dysgu dysgwyr unigol a/neu grwpiau o ddysgwyr; er enghraifft:
   - olrhain cynnydd unigolion a/neu grwpiau ar draws y cwricwlwm;
   - profiadau dysgwyr mewn gwahanol leoliadau;
   - codi ymwybyddiaeth llywodraethwyr.
2. Fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus; er enghraifft:
   - rhannu arfer effeithiol;
   - dysgu ar y cyd a datblygiad cydweithredol;
   - arsylwi cymheiriaid;
   - fel rhan o drefniadau hyfforddi a mentora;
   - arweiniad neu gyngor arbenigol - megis ar dechnegau addysgu, meysydd cwricwlwm, defnyddio offer TGCh, ac ati.
3. Monitro ansawdd yr addysgu, gan gynnwys:
   - fel rhan o'r cylch adolygu datblygiad proffesiynol blynyddol fel y'i diffinnir ym mholisi adolygu datblygiad proffesiynol yr ysgol;
   - fel rhan o weithdrefnau medrusrwydd fel y'u diffinnir ym mholisi gallu'r ysgol;
   - fel rhan o'r broses sefydlu statudol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso fel y'i diffinnir yn rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru;
   - fel rhan o'r Rhaglen Athrawon Graddedig (neu raglenni mynediad athrawon eraill) fel y'u diffinnir yn rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru;
   - at ddibenion llunio barnau am addysgu a dysgu yn yr ysgol gyfan;
   - fel rhan o drefniadau arolygu.

**ATODIAD H: TEMPLAD - ARGYMHELLIAD CYNNYDD TÂL**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Argymhelliad Tâl: | |
| Partner: | |
| Ymarferydd: | |
| Cyfnod cwmpasu y Crynodeb ADP: | |

Argymhelliad ar gyfer Cynnydd Tâl *:

| | |
|---|---|
| I'r Raddfa Gyflog Uwch (U1): | |
| Perfformiad Rhagorol (M2-M6): | |

* Llenwi yn ôl y gofyn

<u>Datganiad</u>

Yn unol â gofynion Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011, a chan ystyried y Crynodeb Datblygiad Proffesiynol perthnasol, rwy'n argymell fod:

_____________________________________ yn symud ar: ________________

| | |
|---|---|
| Partner (llofnod): | |
| Ymarferydd (llofnod): | |